

Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau maethu rheoleiddiedig

Cyflwyniad

Mae'r fframwaith arolygu hwn yn berthnasol i wasanaethau maethu rheoleiddiedig.

Mae'n seiliedig ar yr egwyddorion a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ac fe'i crëwyd yn benodol gan ddefnyddio'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") a'r arweiniad statudol cysylltiedig.

Gweithredu ar sail hawliau

Mae'r fframwaith arolygu hwn yn ystyried ein hymrwymiad i hybu a chynnal hawliau plant sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys hawliau pobl a nodir yn y fframweithiau cyfreithiol canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Deddf Hawliau Dynol 1998¹
- Deddf Cydraddoldeb 2010²
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)³
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau⁴
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005⁵
- Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid⁶.
- Safonau'r Gymraeg⁷

Ceir rhagor o wybodaeth am ein hymrwymiad i gynnal hawliau dynol yn ein gwaith rheoleiddio ac arolygu ar ein gwefan.⁸ Ceir rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar sail hawliau wrth arolygu yn ein Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig.⁹

Llesiant ac arolygu

Mae ein dull o arolygu yn ystyried egwyddorion Deddf 2014 a diffiniad cyfreithiol "llesiant".

¹<https://www.equalityhumanrights.com/cy/human-rights/y-ddeddf-hawliau-dynol>

²www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance

³www.gov.uk/government/publications/united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-uncrc-how-legislation-underpins-implementation-in-england

⁴<https://www.equalityhumanrights.com/cy/ein-gwaith-hawliau-dynol/monitoring-and-promoting-un-treaties/y-confensiwn-ar-hawliau-personau-ag>

⁵www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents

⁶Caiff y rhain eu disodli gan Drefniadau Amddiffyn Rhyddid maes o law

⁷<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/schedule/1/made/welsh>

⁸<https://gweddill.gov.wales/docs/cssiw/general/170309humanrightscy.pdf>

⁹<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2019-03/190313-cod-ymarfer-cy.pdf>

Prif ffocws yr arolygiad yw ystyried y canlyniadau llesiant cenedlaethol. Mae'r fframwaith yn cefnogi arolygwyr i ystyried tystiolaeth ar gyfer y ffordd y mae'r gwasanaeth yn galluogi'r plant mae'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Mae'r fframwaith arolygu hwn yn mapio Rheoliadau 2019 a'r arweiniad statudol cysylltiedig o dan y tair thema, sef 'Gofal a Chymorth', 'Arwain a Rheoli' ac 'Yr Amgylchedd'.

Credwn y bydd y graddau y cyflawnir canlyniadau llesiant plant yn seiliedig ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith gan ddarparu'r gwasanaethau rheoleiddiedig o dan y themâu 'Gofal a Chymorth', 'Arwain a Rheoli' ac 'Yr Amgylchedd'.

Pan fydd y canlyniadau ar gyfer plant yn wael, mae angen i ni archwilio'r rhesymau dros hyn drwy'r llinellau ymholi yn y fframwaith.

Bydd yr arolygwyr yn cynnal eu harolygiadau gan ystyried ein themâu arolygu, sef 'Llesiant', 'Gofal a Chymorth', 'Arwain a Rheoli' ac 'Yr Amgylchedd', ac yn adrodd arnynt.

Beth yw llesiant**Canlyniadau llesiant cenedlaethol****Llinell ymholi**

		GaCh	AaRh	AMG
1. Sicrhau hawliau a hawliadau	- Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy llesiant. - Gallaf gael gafael ar y wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy llesiant. - Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd. - Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno. - Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried. - Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof.	1- 4	5-7 9-11 16	17
2. Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Hefyd yn achos plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol	- Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach. - Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus. - Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl.	1-4	5-11 16	
3. Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod	- Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. - Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod. - Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon.	1-4	5-9 11-16	17
4. Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden	- Rwy'n gallu dysgu a datblygu i'm llawn botensial. - Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi.	1, 2	5-7 10, 11, 13, 16	
5. Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol	- Rwy'n perthyn. - Rwy'n cyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach ac yn eu mwynhau.	1, 2, 4	5-7 9, 11-12, 16	
6. Cyfraniad a wneir at y gymdeithas	- Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati. - Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas.	1, 2	11, 16	
7. Llesiant cymdeithasol ac economaidd.	Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf.	1, 2	5-7 10, 11, 13,	17

	- Nid wyf yn byw mewn tlodi. - Caf gymorth i weithio. - Caf yr help sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol. - Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf.		16	
8. Addasrwydd llety preswyl	Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy llesiant.	1-3	5-7, 10, 16	17

Gofal a Chymorth

Maes Asesu		Llinell ymholi	Rhif y Dudalen
1	Addasrwydd y gwasanaeth	Llinell Ymholi 1: Y graddau y mae darparwr gwasanaethau'n ystyried ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth, er mwyn cadarnhau lleoliad addas sy'n gallu diwallu anghenion y plentyn o ran gofal a chymorth a chyflawni ei ganlyniadau personol. (Rheoliad 11)	8-9
2	Safonau gofal a chymorth	Llinell Ymholi 2: Y graddau y mae plant yn cael gofal a chymorth y mae eu hangen arnynt drwy wasanaeth sydd wedi'i gynllunio drwy ymgynghori â phlant a rhieni maeth ac sy'n ystyried dymuniadau personol y plentyn, ei ddyheadau a'i ganlyniadau ac unrhyw beryglon ac anghenion arbenigol sy'n llywio ei ofal a'i gymorth. (Rheoliad 13-17, 19)	10-12
3	Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill	Llinell Ymholi 3: Y graddau y mae plant a leolir gyda rhieni maeth yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u lles yn barhaus. (Rheoliad 27-28)	13-14
4	Diogelu	Llinell Ymholi 4: Y graddau y mae gan ddarparwyr gwasanaethau y dulliau ar waith i ddiogelu plant agored i niwed y maent yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer. (Rheoliad 20-26)	15-17

Arwain a Rheoli

	Maes Asesu	Llinell ymholi	Rhif y Dudalen
5	Llywodraethu cyffredinol	Llinell Ymholi 5: Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus ac i sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i blant a rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn galluogi plant i gyflawni eu canlyniadau personol. <i>(Rheoliad 3, 6/7, 9)</i>	18-20
6	Datganiad o ddiben	Llinell Ymholi 6: Y graddau y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. <i>(Rheoliad 4)</i>	21
7	Sicrhau ansawdd	Llinell Ymholi 7: Y graddau y mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol, drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu safonau gofal a chydymffurfiaeth â rheoliadau a bod y wybodaeth a'r safbwyntiau a gesglir yn cael eu defnyddio er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. <i>(Rheoliad 5, 49, 56-59, 62-64)</i>	22-26
8	Cynaliadwyedd ariannol	Llinell Ymholi 8: Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n goruchwylio trefniadau ariannol a'r buddsoddiad yn y gwasanaeth fel ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cynorthwyo plant a rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gyflawni eu canlyniadau personol. <i>(Rheoliad 8)</i>	27
9	Diwylliant	Llinell Ymholi 9: Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n gweithredu diwylliant o fod yn agored, yn ddidwyll ac yn onest ar bob lefel ac yn sicrhau bod achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli mewn ffordd agored. <i>(Rheoliad 10, 41, 66)</i>	28
10	Gwybodaeth	Llinell Ymholi 10: Y graddau y gall plant, rhieni maeth a darpar rieni maeth gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth er mwyn eu galluogi i feithrin dealltwriaeth glir ohono a bod cofnodion sy'n ymwneud â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn gywir, yn hygyrch ac ar gael	29-30

		i bobl a'u cynrychiolwyr. (<i>Rheoliad 12, 39, 61</i>)	
11	Staffio	Llinell Ymholi 11: Y graddau y mae plant a rhieni maeth yn cael cymorth gan wasanaeth sy'n darparu nifer briodol o staff addas sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn cyflawni canlyniadau personol y plentyn. (<i>Rheoliad 29-35, 50-55</i>)	31-36
12	Chwythu'r chwiban	Llinell Ymholi 12: Y graddau y mae pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu cefnogi i leisio pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban. (<i>Rheoliad 43, 65</i>)	37-38
13	Rheoli arian unigolyn	Llinell Ymholi 13: Y graddau y mae plant yn cael eu cefnogi i reoli eu harian. (<i>Rheoliad 48</i>)	39
14	Hysbysiadau	Llinell Ymholi 14: Y graddau y mae cyrff rheoleiddio perthnasol ac asiantaethau statudol yn cael eu hysbysu lle bydd pryderon a digwyddiadau arwyddocaol yn effeithio ar blant. (<i>Rheoliad 40, 67</i>)	40
15	Cwynion	Llinell Ymholi 15: Y graddau y mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo polisi a gweithdrefn gwyno hawdd i bobl eu defnyddio ac yn dangos ei fod yn dysgu yn sgil cwynion er mwyn gwella'r gwasanaeth. (<i>Rheoliad 42, 60</i>)	41-42
16	Cymorth ar gyfer rieni maeth	Llinell Ymholi 16: Y graddau y mae rhieni maeth yn cael y wybodaeth, yr hyfforddiant, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt a'u bod yn cael eu goruchwyllo'n briodol, er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth y plant a leolir gyda nhw. (<i>Rheoliad 18, 44-47</i>)	43-44

Yr Amgylchedd

Maes Asesu		Llinell ymholi	Rhif y Dudalen
17	Yr Amgylchedd Cyffredinol	Llinell Ymholi 17: Y graddau y mae darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth plentyn yn cael ei ddarparu mewn lleoliad ac amgylchedd gyda chyfleusterau a, lle bo hynny'n berthnasol, gydag unrhyw gyfleusterau ac offer sy'n hyrwyddo cyflawni eu canlyniadau personol. (<i>Rheoliad 36-38</i>)	45

Llinell Ymholi 1: Y graddau y mae darparwr gwasanaethau'n ystyried ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth, er mwyn cadarnhau lleoliad cadarnhaol sy'n gallu diwallu anghenion y plentyn o ran gofal a chymorth a chyflawni ei ganlyniadau personol. (*Rheoliad 11*)

Sut beth yw da***Canllawiau Statudol - Rheoliad 11 - Addasrwydd y gwasanaeth***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi a gweithdrefnau ar waith ar leoliadau a chychwyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:
 - y trefniadau ar gyfer cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu rhoi cymorth i'r plentyn gyflawni ei ganlyniadau personol neu beidio;
 - y bobl yr ymgynghorir â hwy fel rhan o'r broses;
 - y wybodaeth i'w hystyried;
 - o dan ba amgylchiadau na fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu;
 - cyfleoedd i ymweld â'r gwasanaeth a chartref y rhieni maeth; a'r
 - trefniadau ar gyfer cychwyn y gwasanaeth.
- Bydd crynodeb o'r weithdrefn leoli wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn llawlyfr gwasanaeth ysgrifenedig y darparwr gwasanaethau (gweler rheoliad 12).
- Cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth, bydd y darparwr gwasanaethau'n gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn ag a yw'n gallu diwallu anghenion plentyn o ran gofal a chymorth. Wrth benderfynu fel hyn, bydd y darparwr gwasanaethau:
 - yn ystyried y gofynion sydd wedi'u nodi yn rheoliad 11(3);
 - yn ymgynghori â'r plentyn, rhieni'r plentyn (os yw'n berthnasol) a'r awdurdod lleoli i gadarnhau eu barn;
 - yn cael copi o gynllun gofal a chymorth/cynllun llwybr y plentyn ac yn ei ystyried, ac yn gweithio gyda'r awdurdod lleoli wrth gynllunio i leoli'r plentyn;
 - ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal sy'n 16 oed neu'n hŷn, yn cael copi o gynllun llwybr y person ifanc ac yn ei ystyried;
 - yn ystyried unrhyw risgiau i'r plentyn neu i bobl eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i staff;
 - yn cael gwybodaeth am anghenion arbenigol y plentyn a'i ofynion er mwyn cadarnhau bod modd diwallu'r rhain yn unol â'r datganiad o ddiben.
- Bydd y wybodaeth a geir yn ddigonol i alluogi cyfnod pontio hwylus wrth i'r plentyn symud i'r lleoliad maethu.
- Bydd gofal priodol yn cael ei gymryd i sicrhau bod plentyn yn cael ei baru â rhiant maeth addas, ac ystyrir effaith bosibl y lleoliad ar y plentyn, y rhieni maeth ac aelodau o aelwyd y rhiant maeth.
- Bydd gan y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ar ran y darparwr gwasanaethau ddigon o gyfrifoldeb ac awdurdod yn y

sefydliad er mwyn gallu penderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn.

- Os lleolir y plentyn mewn argyfwng, dylid gwneud pob ymdrech i gael gafael ar gymaint o wybodaeth â phosibl (gan gynnwys asesiadau perthnasol) cyn ei leoli er mwyn sicrhau bod modd i'r gwasanaeth ddiwallu anghenion y plentyn.

Llinell Ymholi 2: Y graddau y mae plant yn cael gofal a chymorth drwy wasanaeth sydd wedi'i gynllunio drwy ymgynghori â phlant a rhieni maeth ac sy'n ystyried dymuniadau personol y plentyn, ei ddyheadau a'i ganlyniadau ac unrhyw beryglon ac anghenion arbenigol sy'n llywio ei ofal a'i gymorth. (*Rheoliad 13-17, 19*)

Sut beth yw da***Canllawiau Statudol - Rheoliad 13 - Safonau gofal a chymorth i blant - gofynion cyffredinol***

- Bydd disgwyliadau'r darparwr gwasanaethau o ran safonau'r gofal a'r cymorth y mae'n rhaid i rieni maeth eu darparu i blant a leolir gyda nhw, wedi'u nodi'n glir yn y datganiad o ddiben.
- Mae polisïau a gweithdrefnau yn gymorth i gyflawni canlyniadau personol plentyn.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y gwasanaeth yn ymatebol ac yn rhagweithiol wrth nodi a lliniaru risgiau.
- Darperir gwybodaeth i rieni maeth am anghenion y plentyn yn unol â chynllun gofal a chymorth/cynllun llwybr y plentyn.
- Caiff rhieni maeth eu cefnogi i geisio cyngor meddygol a chymorth proffesiynol arall ar gyfer plentyn (lle y bo hynny'n briodol) neu wneud atgyfeiriad i'r awdurdod lleoli lle y bo angen, a hynny mewn modd amserol.
- Caiff rhieni maeth eu cefnogi, drwy oruchwyliaeth a hyfforddiant, i sicrhau y gallant ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion y plentyn o ran gofal a chymorth a'i alluogi i gyflawni ei ganlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - darparu gofal priodol ar gyfer plentyn sydd wedi cael ei gam-drin;
 - sgiliau hunanofal;
 - adnabod arwyddion camdriniaeth;
 - hybu a chynnal hunan-fri plentyn;
 - cymorth o ran ymddygiad cadarnhaol;
 - cymorth cyntaf sylfaenol; a
 - hybu iechyd
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y cymorth y byddant yn ei roi yn galluogi rhieni maeth i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da i'r plant y byddant yn eu maethu. Bydd hyn yn cynnwys darparu gofal a chymorth i'r plentyn mewn perthynas â'i:
 - les corfforol, meddyliol ac emosiynol;
 - anghenion diwylliannol, crefyddol, cymdeithasol neu ysbrydol;
 - anghenion o ran addysg, hyfforddiant a hamdden;
 - perthnasoedd personol a theuluol;
 - y gallu i reoli ei fywyd bob dydd;

- datblygiad deallusol, emosiynol ac ymddygiadol;
- hawliau a hawliadau, yn benodol yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; ac
- amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- Caiff rhieni maeth eu cefnogi i alluogi'r plentyn i fod mor annibynnol ag sy'n ymarferol.
- Bydd plant a rhieni maeth yn cael cymorth pan ddaw'r lleoliad i ben, a hynny pan fydd hyn wedi'i gynllunio neu mewn argyfwng.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi tan iddynt fod yn oedolion a phan fyddant yn gadael y system ofal, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 14 - Addasrwydd y gwasanaeth

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i fonitro a yw anghenion y plentyn a aseswyd yn newid (fel y'u nodir yng nghynllun gofal a chymorth y plentyn) ac a all y rhiant maeth barhau i ddiwallu anghenion y plentyn o ran gofal a chymorth.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n rhoi hysbysiad cynnar i'r awdurdod lleoli, lle y bo'n bosibl, os bydd posibilrwydd y bydd y lleoliad yn methu.
- Os na all rhiant maeth ddiwallu anghenion plentyn o ran gofal a chymorth mwyach, rhaid i'r darparwr gwasanaethau roi gwybod i'r awdurdod lleoli ar unwaith.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau brosesau ar waith i darfu cyn lleied â phosibl ar y plentyn a'r rhieni maeth pan fydd yn rhaid i leoliad ddod i ben oherwydd bod anghenion y plentyn a aseswyd wedi newid.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 15 - Gwybodaeth ar gyfer plant

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod modd i blant gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio ac adolygu gofal yn ystod eu lleoliad maeth a gwneud penderfyniadau am y ffordd y caiff gofal a chymorth ei ddarparu iddynt.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod rhieni maeth yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth i blentyn bob dydd yn unol â chynllun gofal a chymorth/cynllun llwybr y plentyn a chanlyniadau personol.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i alluogi plant i ddeall y wybodaeth a ddarperir iddynt.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod trefniadau ar waith sy'n galluogi plant i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth perthnasol neu grwpiau hunan-eiriolaeth (os ydynt yn dymuno hynny) ac yn cefnogi eu hanghenion cyfathrebu er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 16 - Iaith a chyfathrebu

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i helpu rhieni maeth gydag anghenion penodol plentyn o ran iaith a chyfathrebu yn unol â'r datganiad o ddiben. Os bydd angen, bydd hyn yn cynnwys rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod y plentyn yn gallu cyfathrebu'n ysturlon â'i rieni maeth. Mae hyn yn cynnwys:
 - cyfathrebu â'r plentyn yn ei iaith o ran angen, a/neu ei ddewis iaith;
 - y gallu i ddefnyddio dulliau cyfathrebu ychwanegol, lle y bo hynny'n briodol, megis System Cyfathrebu drwy Gyfnewid Lluniau (PECS), Trin ac Addysgu Plant Awtistig a Phlant ag Anableddau Cyfathrebu cysylltiedig (TEACCH), Makaton ac Iaith Arwyddion Prydain.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n nodi anghenion cyfathrebu plentyn wrth benderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu ei anghenion.
- Gall plant ddeall staff pan fyddant yn cyfathrebu â hwy.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod cymhorthion a chyfarpar sydd eu hangen i helpu plentyn i gyfathrebu ar waith, ar gael yn hwylus, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a bod rhieni maeth yn gwybod sut i'w defnyddio.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cynnig gwasanaeth yn Gymraeg i blant neu rieni maeth sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, neu'n gweithio tuag at gynnig hynny.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 17 - Parch a sensitifrwydd

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod plant a'u rhieni maeth yn ymwybodol o'u hawliau a'u hawliadau yn unol â'r gyfraith, ac yn unol â pholisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth y darparwr gwasanaethau.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i rieni maeth i sicrhau'r canlynol ar gyfer y plentyn:
 - bod pobl yn gwrando arno ac yn cyfathrebu ag ef mewn ffordd gwrtais a pharchus ac mai'r gofal a'r cymorth a roddir iddo yw prif ffocws sylw'r rhieni maeth; a
 - ei fod yn cael ei drin â pharch ac yn teimlo bod gwerth yn cael ei roi arno.
- Rhoddir anogaeth i blant a rhieni maeth gyfrannu eu barn ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg os byddant yn dymuno.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 19 - Dyletswydd i hyrwyddo cysylltiad

- Caiff rhieni maeth eu cefnogi i alluogi'r plentyn i gynnal a meithrin cysylltiadau â theulu a ffrindiau yn unol â chynllun gofal a chymorth/ cynllun llwybr y plentyn.
- Lle y bo angen, caiff rhieni maeth eu cefnogi i ymdrin ag unrhyw faterion anodd yn ymwneud â chysylltiad a allai ddod i'r amlwg, neu unrhyw ofynion o ran teithio.
- Caiff rhieni maeth eu cefnogi i ddeall unrhyw gyfyngiadau ar gysylltiad er mwyn amddiffyn y plentyn rhag unrhyw risg i'w

Llinell Ymholi 3: Lle mae llety yn cael ei ddarparu, y graddau y mae plant a leolir gyda rhieni maeth yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u lles yn barhaus. *(Rheoliad 27-28)*

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 27 - Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill

- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau bod iechyd a llesiant y plant a gaiff eu lleoli gyda rhieni maeth yn cael ei hybu. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plentyn yn iach ac yn egnïol;
 - cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plentyn wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu;
 - darparu gwybodaeth feddygol gyfoes i rieni maeth a'u cefnogi i sicrhau bod plentyn yn cael gafael ar wasanaethau gofal sylfaenol neu wasanaethau arbenigol eraill yn ôl yr angen, mewn modd amserol;
 - lle y bo hynny'n briodol, cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plentyn yn cael archwiliadau synhwyrdd perthnasol ac yn cael cymorth i gael adolygiadau parhaus;
 - cefnogi rhieni maeth i gael unrhyw gymhorthion, cymhorthion clyw, sbectol ac ati sydd eu hangen ar blentyn, a'u bod yn cael eu cynnal yn briodol fel bod modd eu defnyddio'n effeithiol;
 - Cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plant yn cymryd rhan gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hybu iechyd, lle y bo hynny'n briodol;
 - cefnogi rhieni maeth i adnabod ac ymateb yn gadarnhaol i anghenion emosiynol a llesiant iechyd meddwl, yn enwedig pan fyddant yn wynebu anhawster, er enghraifft pan fyddant yn unig, yn drallodus, yn mynd drwy gyfnod pontio neu brofedigaeth, neu'n teimlo'n bryderus, yn isel neu'n dioddef o fathau eraill o salwch meddwl.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod rhieni maeth yn cadw cofnodion sy'n berthnasol i ymgynghoriadau proffesiynol (gan gynnwys, lle y bo'n bosibl, unrhyw gamau a gymerwyd yn sgil hyn) ac yn cadw gohebiaeth berthnasol, lle y bo hynny ar gael, i ddarparu cofnod iechyd cyfoes a chynhwysfawr ar gyfer y plentyn.
- Bydd polisi a gweithdrefnau ar waith ar gyfer pan fydd rhieni maeth yn rhoi meddyginiaeth, yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol. Bydd hyn yn cynnwys rôl a chyfrifoldebau'r rhiant maeth, y darparwr gwasanaethau a (lle y bo'n briodol) yr awdurdod ardal i gefnogi'r plentyn i gael a chymryd meddyginiaeth.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod rhieni maeth yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi meddyginiaeth ac yn eu dilyn.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 28 – Addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hamdden

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau bod cyrhaeddiad addysgol a gweithgareddau hamdden plant a leolir gyda rhieni maeth yn cael eu hyrwyddo, yn unol â chynllun gofal a chymorth/cynllun llwybr y plentyn, gan gynnwys y Cynllun Addysg Personol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - cefnogi rhieni maeth i ymwneud â'r gwaith o asesu, cynllunio ac adolygu anghenion addysgol plentyn, gan gynnwys unrhyw anghenion dysgu ychwanegol gan gyfrannu yn ôl yr angen at unrhyw gynllun addysg personol;
 - cefnogi'r rhiant maeth i ddeall ei rôl wrth ymgysylltu ag ysgol y plentyn (neu leoliad addysgol arall);
 - cefnogi rhieni maeth i sicrhau bod plentyn yn cymryd rhan yn llawn mewn addysg;
 - cefnogi rhieni maeth i wireddu potensial plentyn a gwneud pethau sydd o bwys iddo ac sy'n ei wneud yn hapus. Gall hyn gynnwys cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, datblygu a chynnal diddordebau, ymuno â gweithgareddau yn y gymuned a gwirfoddoli.
- Bydd gan wasanaethau maethu drefniadau ar waith i fonitro cyrhaeddiad addysgol plentyn a leolir gyda rhiant maeth, ei gynnydd a'i bresenoldeb yn yr ysgol (lle y bo'n berthnasol).
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi proses o baratoi'r plentyn ar gyfer bod yn oedolyn a bod yn annibynnol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:
 - Cefnogi rhieni maeth i helpu plant i ddatblygu'r sgiliau, y cymhwysedd a'r wybodaeth sydd eu hangen i fyw fel oedolyn;
 - rhoi hyfforddiant a chymorth i rieni maeth i'w galluogi i ddarparu cymorth a chanllawiau effeithiol i berson ifanc sy'n paratoi i symud i fyw'n annibynnol neu'n lled-annibynnol; a
 - sicrhau bod pob person ifanc sy'n paratoi i symud i fyw'n annibynnol neu'n lled-annibynnol yn cael ei annog i gyfrannu'n weithredol at ddatblygu ei Gynllun Llwybr a'i roi ar waith.

Llinell Ymholi 4: Y graddau y mae gan ddarparwyr gwasanaethau y dulliau ar waith i ddiogelu plant agored i niwed y maent yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer. (*Rheoliad 20-26*)

Sut beth yw da***Canllawiau Statudol - Rheoliad 20 – Diogelu - Gofyniad Cyffredinol***

- Pan fydd lleoliad yn dechrau, caiff y plentyn wybodaeth ddiogelu, sut mae lleisio pryder, a pha gymorth sydd ar gael i'w galluogi i wneud hynny.
- Bydd staff a rhieni maeth yn gallu cael gafael ar bolisiâu a gweithdrefnau diogelu sydd wedi'u diweddarau.
- Bydd staff a rhieni maeth yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl er mwyn iddynt ddeall eu cyfrifoldeb i ddiogelu ac amddiffyn plant sy'n agored i niwed. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau diogelu mewnol a lleol, gan gynnwys sut i fynegi pryder (chwythu'r chwiban).
- Bydd y staff yn cael eu hyfforddi'n gyson yn unol â'r argymhellion diogelu lleol.
- Bydd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol am leisio pryder er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant plant.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i staff sydd am leisio pryder ynghylch diogelu (chwythu'r chwiban).
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill i asesu a rheoli risg i blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i gymryd rhan yn y broses ddiogelu.
- Bydd cofnodion ynghylch atgyfeiriadau a chanlyniadau diogelu'n cael eu cadw er mwyn gallu goruchwyllo diogelu o fewn y gwasanaeth a chraffu arno. Rhaid i reolwr y gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol oruchwyllo plant agored i niwed a rhaid i hynny ddigwydd o fewn y strwythur llywodraethu gan sefydlu trefniadau goruchwyllo ar lefel y bwrdd.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod canlyniadau sy'n digwydd yn sgil atgyfeirio unrhyw achos sy'n ymwneud â diogelu yn cael eu cyfleu i'r plentyn mewn dull sy'n briodol i'w oed a lefel ei ddealltwriaeth, gan ystyried unrhyw gyflwr penodol a/neu anghenion cyfathrebu. Caiff unrhyw gynrychiolwyr eu hysbysu o hyn hefyd (os yw'n briodol).

Canllawiau Statudol - Rheoliad 21 - Polisiâu a gweithdrefnau diogelu

- Bydd polisi a gweithdrefnau diogelu cyfoes ar waith.
- Bydd y polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu'n unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol a gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer plant.
- Bydd y polisi a'r gweithdrefnau diogelu'n cynnwys rolau unigol a chyfrifoldebau staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth o ran adnabod, derbyn a rhoi gwybod am honiadau o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol neu amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff am y camau i'w cymryd a'r dulliau ar gyfer cyfeirio pobl at yr awdurdod lleoli ac at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill.

- Bydd y polisi a'r gweithdrefnau diogelu'n cynnwys rôl a chyfrifoldebau rhieni maeth mewn cysylltiad â honiadau neu ddatgeliadau, gan unrhyw blentyn ar aelwyd y rhiant maeth, o gam-drin neu driniaeth amhriodol neu amheuan bod unrhyw blentyn ar aelwyd y rhiant maeth yn cael ei gam-drin neu ei drin yn amhriodol. Bydd hyn yn cynnwys sut i roi gwybod am honiadau neu ddatgeliadau o'r fath i'r darparwr gwasanaethau.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod plant yn gwybod am eu hawl i gael gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 22 – Y defnydd priodol o reolaeth ac ataliaeth

- Bydd polisi a gweithdrefnau ar waith ar gyfer defnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn briodol. Bydd yn nodi:
 - y gofyniad i rieni maeth sicrhau bod unrhyw ddefnydd o ddulliau rheoli neu atal yn glynu wrth ganllawiau cenedlaethol a deddfwriaeth gyfredol;
 - y gofyniad i rieni maeth ymgymryd â hyfforddiant ar unrhyw ddulliau rheoli neu atal cyn defnyddio unrhyw ddulliau o'r fath.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod dull gweithredu cadarnhaol ac adeiladol yn cael ei fabwysiadu gan rieni maeth i roi cymorth gydag ymddygiad plentyn. Bydd unrhyw gamau a gymerir i roi cymorth gydag ymddygiad y plentyn yn gyson â
 - diwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn;
 - llesiant aelodau eraill o aelwyd y rhiant maeth y gallai'r lleoliad a wneir effeithio arnynt.
- Bydd staff a rhieni maeth yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ynghylch defnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn briodol, ac yn deall ac yn dilyn y polisi hwn.
- Bydd rhieni maeth yn cael hyfforddiant ar gymorth ymddygiad sy'n berthnasol i'w rôl er mwyn sicrhau mai dim ond mewn modd rhagweithiol a phan fydd hynny'n gwbl angenrheidiol y defnyddir unrhyw ddulliau rheoli neu atal, a hynny'n unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol.
- Bydd staff a rhieni maeth yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisi a'r gweithdrefnau yn unol ag unrhyw newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod trefniadau ar waith felly pryd bynnag y bydd rhieni maeth yn defnyddio dulliau rheoli neu atal, bydd y darparwyr yn gallu cadarnhau eu bod:
 - ond yn cael eu defnyddio fel rhan o ddull rhagweithiol i roi cymorth ar gyfer ymddygiad;
 - yn gymesur â'r risg o niwed a difrifoldeb y niwed hwnnw i'r plentyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu i rywun arall;
 - yn ystyried yr asesiad o anghenion y plentyn;
 - yn dilyn y deddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.
- Dylai darparwyr gwasanaethau fonitro ac adolygu'n rheolaidd y dulliau rheoli neu atal a ddefnyddir gan rieni maeth, gan adrodd am hyn o fewn eu fframwaith llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys:

- manylion y digwyddiad a'r camau a gymerwyd i ymateb iddo;
- digon o fanylion er mwyn gallu dadansoddi ac adolygu anghenion gofal a chymorth y plentyn yn ogystal â llywio adolygiad ehangach o'r gwasanaethau a ddarperir hefyd.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau bod digwyddiadau lle defnyddiwyd dulliau rheoli ac atal yn cael eu cofnodi a bod rhieni maeth yn rhoi gwybod amdanynt o fewn 24 awr.
- Bydd cofnodion ar ddefnyddio dulliau rheoli ac atal yn cael eu hadolygu, a bydd adrodd yn eu cylch o fewn yr adolygiad o ansawdd gofal.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 23 – Gwaharddiad ar y defnydd o gosb gorfforol – cyfeiriwch at Reoliad 23

Canllawiau Statudol - Rheoliad 24 – Amddifadu o ryddid

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau bod rhieni maeth yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt weithredu'n unol â deddfwriaeth bresennol a chanllawiau cymwys ar fesurau diogelu amddifadu o ryddid bob amser.
- Bydd staff a, lle y bo'n berthnasol, rhieni maeth yn cael hyfforddiant ar adegau priodol ac yn unol ag unrhyw newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth ar y mesurau diogelu amddifadu o ryddid.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 25 - Polisiâu a gweithdrefnau bwlio

- Bydd polisi ar waith ar atal bwlio.
- Bydd y polisi'n cyd-fynd ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol.
- Bydd y polisi'n cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff a'r bobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth a'r rhieni maeth o ran nodi, derbyn ac adrodd ar honiadau o fwlio. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff am y camau i'w cymryd a'r dulliau ar gyfer cyfeirio at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 26 – Gweithdrefn pan fydd plentyn yn absennol heb ganiatâd

- Bydd gweithdrefn ar waith ar gyfer pan fydd plentyn yn absennol heb ganiatâd.
- Bydd y weithdrefn yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol.
- Bydd y polisi'n cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff a'r bobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth a'r rhieni maeth o ran rhoi gwybod pan fydd plentyn yn absennol heb ganiatâd. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff am y camau i'w cymryd a'r dulliau ar gyfer cyfeirio at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol.

Llinell Ymholi 5: Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus ac i sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i blant a rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn galluogi plant i gyflawni eu canlyniadau personol. (*Rheoliad 3, 6/7, 9*)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 3 - Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau clir i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth er mwyn sefydlu, datblygu a gwreiddio diwylliant sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:
 - polisïau a gweithdrefnau i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i roi plant yng nghanol y gwasanaeth;
 - systemau ar gyfer monitro ac adolygu sy'n cefnogi ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn galluogi plant i gyflawni eu canlyniadau personol;
 - prosesau i sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd gyson a dibynadwy;
 - trefniadau staffio diogel, wedi'u hategu gan ddatblygiad proffesiynol, i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant ac i gefnogi rhieni maeth;
 - systemau ansawdd ac archwilio i adolygu cynnydd a llywio datblygiad y gwasanaeth;
 - ymagwedd ragweithiol at gyfle cyfartal ac amrywiaeth;
 - eiddo, cyfleusterau a chyfarpar addas a hygyrch.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 6/7 - Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i gynnal trafodaethau ffurfiol a rheolaidd gyda'r unigolyn cyfrifol, ac i roi cymorth iddo.
- Bydd y darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i'r unigolyn cyfrifol ddilyn hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyfforddiant ar gyfer unigolion cyfrifol yn cynnwys y canlynol:
 - fframwaith deddfwriaethol a gofynion statudol;
 - dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol;
 - perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd; a
 - siapio diwylliant y gwasanaeth, ac ati.
- Os bydd unigolyn cyfrifol wedi methu â chyflawni ei rôl bydd y darparwr gwasanaethau'n hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth am unrhyw gamau a gymerwyd a, lle y bo hynny'n berthnasol, yn ei gynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer dynodi rhywun yn ei

le.

- Os na fydd unigolyn cyfrifol neu os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd y darparwr gwasanaethau'n sicrhau bod y cyfrifoldeb dros orchwyllo'r gwaith o reoli'r gwasanaeth, fel y nodir yn rhannau 12 i 16 y Rheoliadau, yn parhau i gael ei fodloni gan ddefnyddio trefniadau amgen.
- [*Lle mae'r darparwr gwasanaethau'n unigolyn*] Os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod gofynion rheoliad 7(3) yn cael eu bodloni.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 9 - Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau.
- Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau yn gymesur â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. Lle y bo hynny'n berthnasol, bydd polisïau a gweithdrefnau'n ystyried anghenion aelodau eraill o aelwyd y rhiant maeth.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n adlewyrchu trefniadau ar gyfer cynnig seibiannau byr i blant, lle caiff y rhain eu darparu gan y darparwr gwasanaethau.
- Bydd polisïau a gweithdrefnau:
 - yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol;
 - yn cynnig arweiniad i staff i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â'r datganiad o ddiben; ac
 - yn gosod gofynion a fydd yn rhoi gwybod i blant, rhieni maeth a'r staff am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.
- Bydd y polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yng ngoleuni newidiadau i arferion, deddfwriaeth sy'n newid ac argymhellion ynglŷn â'r arferion gorau.
- Bydd cyfle i staff, plant a rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth ymwneud â datblygu polisïau a gweithdrefnau.
- Os bydd y datganiad o ddiben yn newid, bydd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n eu helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant, a'u bod yn gwybod am y polisïau a'r gweithdrefnau hynny ac yn eu deall.
- Bydd yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael i'r plentyn, ei gynrychiolwyr, y rhieni maeth a, lle y bo hynny'n briodol, i'r awdurdod ardal perthnasol.
- Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau ar fformat hygyrch i'r plentyn, a darperir cymorth i helpu'r plentyn i'w deall.
- Bydd systemau ar gyfer monitro a gwella'n cynnwys y rheini sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau.

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 4 - Datganiad o ddiben

- Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol i'r gwasanaeth. Dylai:
 - ddisgrifio'n gywir y gwasanaethau a ddarperir;
 - dweud ymhle a sut darperir y gwasanaethau hyn; a
 - nodi'r trefniadau i gefnogi sut caiff y gwasanaethau eu darparu.
- Rhaid iddo gynnwys y wybodaeth sydd yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017(2).
- Wrth baratoi datganiad o ddiben, rhaid i'r darparwr ystyried unrhyw ganllawiau ynghylch datganiad o ddiben a ddarperir gan y rheoleiddiwr gwasanaeth.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n adolygu ac yn diweddarau'r datganiad o ddiben bob blwyddyn, o leiaf, neu pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth a ddarperir.
- Os bwriedir newid y gwasanaeth a ddarperir, bydd y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newid hwnnw. Bydd y darparwr yn rhoi gwybod i'r unigolion hynny a nodir yn rheoliad 4(4) o leiaf 28 diwrnod cyn gwneud y newidiadau. Mae enghreifftiau yn cynnwys newidiadau i'r trefniadau staffio arferol neu'r lefelau staffio fel sydd wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben sy'n bodoli'n barod.
- Os bydd bwriad i newid y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a hynny ar unwaith, h.y. o fewn y cyfnod hysbysu o 28 diwrnod (fel sy'n ofynnol o dan reoliad 4(3)), er enghraifft mewn ymateb i gais brys, rhaid i'r darparwr gwasanaethau:
 - hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth ar unwaith (a lle y bo'n ymarferol, cyn gwneud y newid); a
 - diweddarau'r datganiad o ddiben er mwyn adlewyrchu'r newid a hynny'n ddi-oed, a darparu copi i reoleiddiwr y gwasanaeth.
- Os cynigir newid yn y datganiad o ddiben, bydd y darparwr gwasanaethau'n bodloni rheoleiddiwr y gwasanaeth ei fod yn gallu darparu'r gwasanaethau a gynigir drwy, er enghraifft, roi rhagor o wybodaeth neu drefnu ymweliad gan y rheoleiddiwr â'r gwasanaeth (lle y bo hynny'n briodol).
- Os caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddarau, cedwir cofnod o'r fersiwn a'r dyddiad diwygio.
- Bydd copi o'r datganiad o ddiben ar gael yn rhwydd i'r rheini a restrir yn rheoliad 4(4).

Llinell Ymholi 7: Y graddau y mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol, drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu safonau gofal a chydymffurfiaeth â rheoliadau a bod y wybodaeth a'r safbwyntiau a gesglir yn cael eu defnyddio er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. (*Rheoliad 5, 49, 56-59, 62-64*)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 5 - Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys nodi:
 - pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud;
 - sut bydd hyn yn cael ei wneud;
 - pa mor aml mae hyn yn digwydd; a
 - trefniadau er mwyn i'r unigolyn cyfrifol adrodd wrth reoleiddiwr y gwasanaeth.
- Bydd canlyniad unrhyw adolygiad yn cael ei ddadansoddi a'i adolygu gan bobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i ddeall ei arwyddocâd ac i gymryd camau i sicrhau bod pethau'n gwella. Bydd darparwyr gwasanaethau'n ceisio cyngor proffesiynol/arbenigol yn ôl yr angen ac yn brydlon i helpu i sicrhau gwelliannau.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n gallu dangos sut maent:
 - wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ac ymateb iddi; a
 - wedi defnyddio'r wybodaeth i wella pethau.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n monitro'r cynnydd o'i gymharu â chynlluniau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn cymryd camau priodol ar unwaith oni lwyddir i sicrhau'r cynnydd disgwylidig.
- Bydd y systemau a'r prosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn galluogi'r darparwr gwasanaethau i weld ymhle y mae neu y gallai rhywbeth amharu ar ansawdd gwasanaethau ac i alluogi ymateb prydlon priodol.
- Fel rhan o'r broses adolygu ansawdd, bydd darparwyr gwasanaethau:
 - yn annog adborth;
 - yn ceisio barn plant a rhanddeiliaid eraill a restrir yn rheoliad 5(2) yn rheolaidd am ansawdd y gwasanaeth; a
 - yn gallu dangos eu bod wedi gwneud hyn darparu dadansoddiad o'r adborth y maent wedi'i gael.
- Bydd y dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu â'r rheini a restrir yn rheoliad 5(2) yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried unrhyw gyflwr penodol a/neu anghenion cyfathrebu. Bydd cyfranogiad y plant yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- Defnyddir gwybodaeth a gesglir drwy'r systemau ansawdd ac archwilio i ddatblygu'r adroddiad adolygu ansawdd y gofal yn unol â rheoliad 63(4).

Canllawiau Statudol - Rheoliad 49 - Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dilyn y systemau a'r prosesau a ragnodwyd gan y darparwr gwasanaethau er mwyn galluogi

goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol, ond nid dim ond hynny:

- canolbwyntio ar anghenion y plentyn a chefnogi'r rhieni maeth;
 - gwrando ar blant a rhieni maeth;
 - ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryderon neu gwynion;
 - peidio â rhoi plant, rhieni maeth nag aelwyd y rhieni maeth mewn perygl diangen;
 - sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion;
 - cyflawni'r datganiad o ddiben;
 - cyflogi nifer ddigonol o staff sydd wedi'u hyfforddi, sy'n gymwys ac yn fedrus i gyflawni eu rôl;
 - bod gan y gwasanaeth ddigon o adnoddau, cyfleusterau ac offer.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol systemau i adolygu ac asesu sut mae'r rheolwr yn rhoi camau ar waith a nodwyd yng nghanfyddiadau adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac arolygu allanol, o fewn yr amserlenni a bennwyd.
 - Bydd llinellau atebolrwydd, dirprwyo a chyfrifoldeb clir ar gael yn ysgrifenedig rhwng yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd).
 - Bydd trefniadau ar waith i'r rheolwr allu cysylltu'n uniongyrchol â'r unigolyn cyfrifol yn ogystal â'r cyfle i gyfarfod yn ffurfiol fel rhan o adolygiadau ansawdd yr unigolyn cyfrifol (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd).
 - Bydd trefniadau ar waith i sicrhau bod y rheolwr yn cael cymorth drwy ei oruchwyllo a'i hyfforddi, a rhoi cyfle iddo feddu ar sgiliau ar gyfer ei ddatblygiad proffesiynol sy'n gefn iddo yn ei rôl.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 56 - Ymweliadau

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol i fonitro perfformiad y gwasanaeth yng nghyswllt ei ddatganiad o ddiben ac i lywio'r adolygiad o ansawdd y gofal. Bydd yr ymweliad yn cynnwys y canlynol:
 - siarad, gyda chydysyniad ac yn breifat, â sampl o blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rhieni maeth, unrhyw gynrychiolwyr (os yw'n berthnasol) a staff;
 - archwilio eiddo'r darparwr gwasanaethau, detholiad o gofnodion o ddigwyddiadau ac unrhyw gofnodion o gwynion.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu tystiolaeth bod ymweliadau wedi'u logio a'u cofnodi.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 57 - Goruchwyllo digonolrwydd adnoddau

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith sy'n ei alluogi i goladu gwybodaeth am y gwasanaeth ac unrhyw feysydd lle y gall fod angen arsylwi/ystyriaeth fwy gofalus a/neu wella. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- trosiant staff;
- lefelau salwch staff;
- cwynion;
- materion diogelu;
- adroddiadau arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth;
- canlyniadau arolygiadau a/neu adroddiadau gan asiantaethau perthnasol eraill, h.y. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a'r gwasanaeth tân.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod ar unwaith i'r darparwr gwasanaethau os bydd y gwasanaeth:
 - yn methu cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau;
 - yn methu cyflawni neu roi sylw i faterion a godwyd mewn adroddiadau arolygu neu os na all wneud hynny; a
 - yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n groes i'r datganiad o ddiben.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 58 - Adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i roi gwybod i'r darparwr gwasanaethau'n unol â gofynion rheoliadau 58 a 63.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol system ar waith i gyflwyno adroddiadau i'r darparwr gwasanaethau sy'n adlewyrchu'n gywir ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau i'r unigolyn cyfrifol roi adborth ac i roi gwybod am unrhyw faterion brys y mae gofyn cymryd camau yn eu cylch ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - marwolaeth annisgwyl neu heb esboniad plentyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu rieni maeth;
 - argyfwng naturiol;
 - afreoleidd-dra ariannol;
 - achosion sylweddol o haint;
 - pryderon sylweddol a godwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth; yr awdurdod ardal neu'r awdurdod lleoli;
 - unrhyw ddigwyddiad, sy'n effeithio ar y staff sydd ar gael.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 59 - Ymgysylltu â phlant ac eraill

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i alluogi adborth ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir a sicrhau bod y trefniadau hyn yn hygyrch, ac yn ystyried barn pob un o'r rheini a restrir o dan reoliad 59(1).
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu â phlant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried unrhyw gyflwr penodol neu angen o ran cyfathrebu.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol berthynas gadarnhaol â phobl y tu allan i'r gwasanaeth, a bydd ar gael yn hwylus i'r bobl hynny.

Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- rhiant unrhyw blentyn a leolir gyda'r darparwr gwasanaethau;
- rhieni maeth;
- awdurdodau ardal (lle y bo'n briodol);
- rheoleiddwyr; a
- chyrff proffesiynol.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 62 - Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i adolygu polisïau a gweithdrefnau, a nodir yn rheoliad 9, yn unol â'r Rheoliadau hyn.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod staff a rhieni maeth yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau i'w helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a'u bod yn gwybod am y polisïau a'r gweithdrefnau hynny ac yn eu deall.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 63 - Adolygiad o ansawdd y gofal

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - casglu a dadansoddi'r adborth gan y rheini a restrir o dan reoliad 59(1);
 - materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu;
 - patrymau a thueddiadau a nodwyd drwy ddadansoddi hysbysiadau, materion diogelu, pryderon chwythu'r chwiban a chwynion;
 - canlyniad unrhyw adroddiadau arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth;
 - canlyniad ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth; ac
 - archwiliadau o gyfrifon.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau a phrosesau archwilio ar gyfer monitro'r gwasanaeth yn rhoi tawelwch meddwl bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu, sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod systemau a phrosesau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i alluogi'r unigolyn cyfrifol i weld ymhle y mae neu y gallai ansawdd a/neu ddiogelwch gwasanaethau fod dan fygythiad, gan ymateb yn briodol ac yn ddi-oed.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod bob adborth yn cael ei gydnabod a'i gofnodi ac yn cael ymateb priodol.

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod meysydd dysgu yn sgil cwynion, diogelu a chwythu'r chwiban yn cael eu rhannu gyda'r staff i wella'r gwasanaeth ac i annog arferion diogel a thosturiol ym maes gofal.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod meysydd dysgu yn cael eu dadansoddi a bod argymhellion yn cael eu gwneud i'r darparwr gwasanaethau ynghylch sut ac ymhle y gellir gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Bydd yr adroddiad, sy'n cynnwys y wybodaeth sydd wedi bod yn sail iddo (yn ymwneud â'r meysydd hynny a nodir uchod) yn llywio neu'n ffurfio rhan o'r datganiad cydymffurfio i'w cynnwys yn natganiad blynyddol y darparwr gwasanaethau.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 64 - Datganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth

- Bydd yr unigolyn cyfrifol wedi paratoi'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad cydymffurfio a datganiad blynyddol y darparwr gwasanaethau, a bydd yn atebol am ei hansawdd a'i chywirdeb.

Llinell Ymholi 8: Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n goruchwyllo trefniadau ariannol a'r buddsoddiad yn y gwasanaeth fel ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cynorthwyo plant a rhieni maeth i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. *(Rheoliad 8)*

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 8 - Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth

- Bydd systemau ar waith i sicrhau bod gwaith cynllunio ariannol, monitro'r gyllideb a rheolaeth ariannol yn cael ei wneud yn effeithiol.
- Bydd systemau ar waith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol a diogelu'r defnyddiwr yn unol ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol a rheoliadau ariannol.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddarparu ac i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y datganiad o ddiben ac er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau yswiriant priodol a threfniadau digolledu priodol ar waith i warchod rhag rhwymedigaethau posibl yn sgil marwolaeth, anaf, neu achosion eraill, colled neu ddifrod i eiddo, a risgiau ariannol eraill.
- Os na fydd cyfrifon archwiliedig ar gael, bydd cyfrifon blynyddol yn cael eu cwblhau gan gyfrifydd cymwys at bwrpas rheoleiddio ac archwilio.
- Mae'r cyfrifon yn dangos bod y gwasanaeth yn ariannol hyfyw ac yn debygol o fod â digon o arian i barhau i ddarparu gwasanaethau fel y nodwyd yn ei ddatganiad o ddiben.
- Bydd y darparwr gwasanaethau'n sicrhau y gwneir taliadau prydlon i rieni maeth am unrhyw lwfansau neu dreuliau y cytunwyd arnynt, sy'n cynnwys costau darparu gofal a chymorth i unigolion.
- Mae'r darparwr gwasanaethau'n sicrhau bod rhieni maeth yn deall y cymorth ariannol neu'r cymorth arall sydd ar gael iddynt.

Llinell Ymholi 9: Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n gweithredu diwylliant o fod yn agored, yn ddiwyll ac yn onest ar bob lefel ac yn sicrhau bod achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli mewn ffordd agored. (***Rheoliad 10, 41, 66***)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 10 - Dyletswydd gonestrwydd (ddarparwyr gwasanaethau)

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisïau a gweithdrefnau ar waith a fydd yn gefn i ddiwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, a sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn dilyn ac yn ystyried canllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n hybu diwylliant sy'n annog pawb i fod yn onest sy'n cynnwys:
 - bod yn agored ac yn onest wrth ymgysylltu â'r rheini sydd wedi'u rhestru yn rheoliad 10 (a)–(e);
 - darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau a chanlyniad unrhyw ymchwiliadau sydd wedi bod; a
 - cynnig ymddiheuriad am yr hyn sydd wedi digwydd, lle y bydd gwneud hynny yn briodol.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cymryd camau i atal bwllo, erlyn a/neu aflonyddu ac yn mynd i'r afael â'r rhain yn briodol, gyda golwg ar y ddyletswydd gonestrwydd, ac i ymchwilio i unrhyw ddigwyddiad lle mae'n bosibl bod aelod o'r bwrdd, unigolyn cyfrifol neu aelod o'r staff wedi rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd yntau i fod yn onest.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau system ar waith i sylwi ar achos posibl o dorri'r ddyletswydd gonestrwydd gan staff sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol, ac i ymdrin â hynny (fel sy'n gymwys). Gall hyn gynnwys rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd broffesiynol i fod yn onest. Bydd camau i fynd i'r afael â thorri amodau o'r fath yn cynnwys, lle y bo hynny'n briodol, gyfeirio rhywun at y rheoleiddiwr proffesiynol neu at gorff perthnasol arall.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 41 - Gwrthdaro buddiannau

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cynnal systemau priodol ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwrthdaro gwirioneddol neu wrthdaro ymddangosiadol rhwng buddiannau'n cael eu nodi, eu hatal a'u cofnodi'n agored.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 66 - Dyletswydd gonestrwydd (unigolyn cyfrifol)

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw gan sicrhau bod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliad 66.

Llinell Ymholi 10: Y graddau y gall plant, rhieni maeth a darpar rieni maeth gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth er mwyn eu galluogi i feithrin dealltwriaeth glir ohono a bod cofnodion sy'n ymwneud â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn gywir, yn hygyrch ac ar gael i blant a'u cynrychiolwyr. (*Rheoliad 12, 39, 61*)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 12 - Gwybodaeth am y gwasanaeth

- Bydd llawlyfr ysgrifenedig ar gael i'r rheini a restrir yn rheoliad 12(2)(c), sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth.
- Bydd y llawlyfr mewn iaith syml ac ar fformat sy'n adlewyrchu anghenion, oedran a lefel ddealltwriaeth y sawl y bwriedir y gwasanaeth ar ei gyfer. Bydd y llawlyfr ar gael mewn fformatau a thrwy gyfryngau sydd ar gael yn hwylus ac yn briodol i'r gynulleidfa. Er enghraifft, iaith briodol ac iaith o ddewis yr unigolyn, print mawr, sain, cymhorthion cyfrifiadurol a gweledol. Os bydd gofyn, defnyddir y dull cyfathrebu a ffeirir gan y plentyn neu'r rhiant maeth i'w esbonio.
- Os bydd gofyn, rhoddir cymorth i blant a rhieni maeth ddeall cynnwys y llawlyfr a'r hyn mae'n ei olygu iddynt hwy.
- Bydd y llawlyfr yn rhestru'r meysydd sy'n ofynnol o dan reoliad 12(3) a bydd hefyd yn cynnwys y canlynol:
 - trefniadau ar gyfer cyflwyno'r plentyn i'r rhiant maeth ac aelwyd y rhiant maeth;
 - ethos, diwylliant a blaenoriaethau'r gwasanaeth a reoleiddir – gan gynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben
 - rôl y rhieni maeth yn y broses arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth;
 - sut i gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf a luniwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth;
 - y staff allweddol a fydd yn rhoi cymorth i'r plentyn a'r rhiant maeth;
 - sut i gysylltu â'r unigolyn cyfrifol;
 - y weithdrefn gwyno a sut mae gwneud cwyn;
 - manylion cyswllt a rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rheoleiddiwr y gwasanaeth a Chomisiynydd Plant Cymru;
 - mynediad, a help i gael mynediad at, wasanaethau eiriol perthnasol ac asiantaethau neu wasanaethau eraill, megis gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol (meddyg teulu; deintydd; optometrydd, fferylllydd, ciropodydd, ymweliadau â'r ysbyty); cludiant;
 - gwybodaeth am hawl plant sy'n derbyn gofal i ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol a'r cymorth sydd ar gael i blant i'w helpu i gael gafael ar wasanaethau o'r fath;
 - gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i rieni maeth gan y darparwr gwasanaeth;
 - trefniadau i blant a rhieni maeth fynegi eu barn ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei gynnal;
 - sut gall plant gael gafael ar eu cofnodion eu hunain.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 39 - Cofnodion mewn perthynas â gwasanaethau maethu

- Bydd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion. Mae hyn yn cynnwys:
 - y cofnodion i'w cynnal gan y darparwr gwasanaethau ar y plant a'r rhieni maeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
 - y cofnodion dyddiol i'w cynnal gan y rhieni maeth ar gyfer unrhyw blentyn a leolir gyda nhw;
 - am ba hyd y bydd angen i'r darparwr gwasanaethau a'r rhieni maeth gadw cofnodion.
- Bydd y staff yn ymwybodol o'r polisi ac yn deall yn glir y gweithdrefnau ar gyfer rheoli cofnodion. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ym maes gwarchod gwybodaeth a'r camau i'w cymryd pan fydd perygl i wybodaeth bersonol gael ei datgelu.
- Bydd rhieni maeth yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion ac wedi'u cefnogi i gofnodi'r digwyddiadau bywyd arwyddocaol ar gyfer y plentyn. Bydd rhieni maeth yn deall pa wybodaeth bydd angen iddynt roi i'r darparwr gwasanaethau am y plentyn.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cadw'r holl gofnodion sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn plant a chynnal y gwasanaeth yn effeithlon yn unol â'r hyn a bennir yn atodlen 2 o'r Rheoliadau.
- Bydd yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel, yn cael eu diweddarau a bydd trefn dda arnynt. Bydd y cofnodion yn cael eu paratoi, eu cynnal a'u defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data a gofynion statudol eraill ac fe'u cedwir am y cyfnod sy'n ofynnol yn unol â rheoliad 39(1).
- Bydd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel, gan gynnwys cofnodion electronig o dan warchodaeth cyfrinair.
- Bydd plant, rhieni maeth a staff yn cael gweld unrhyw gofnodion a'r wybodaeth a gedwir amdanynt gan y darparwyr gwasanaethau'n unol â gofynion cyfreithiol cyfredol.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 61 - Dyletswydd i sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer cadw cofnodion

- Os bydd y cofnodion yn cael eu storio'n electronig, byddant yn ddiogel a bydd gan y staff godau mynediad unigol sy'n creu trywydd archwilio clir a fydd yn dangos pwy sydd wedi cofnodi unrhyw wybodaeth ac wedi diwygio.

Llinell Ymholi 11: Y graddau y mae plant a rhieni maeth yn cael cymorth gan wasanaeth sy'n darparu nifer briodol o staff addas sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn cyflawni canlyniadau personol y plentyn. (*Rheoliad 29-35, 50-55*)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 29 – Staffio - Gofynion cyffredinol

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau ddull mesuradwy, systematig, amlwg ar waith i bennu nifer y staff a'r ystod o sgiliau/cymwysterau sy'n ofynnol er mwyn cefnogi anghenion plant a chefnogi rhieni maeth a darpar rieni maeth. Mae hyn yn ystyried, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - y datganiad o ddiben;
 - anghenion y plentyn o ran gofal a chymorth;
 - cefnogi a goruchwyllo rhieni maeth wrth ddarparu gofal a chymorth i blentyn.
- Bydd lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau'n cael eu hadolygu'n barhaus ac yn cael eu haddasu i ymateb i anghenion y gwasanaeth wrth i'r rheini newid.
- Bydd trefniadau ar waith i ymateb i salwch neu absenoldeb staff er mwyn sicrhau bod plant a rhieni maeth yn cael eu cefnogi'n briodol.
- Bydd gweithdrefnau i'w dilyn os bydd argyfwng sy'n sicrhau bod digon o staff addas ar gael i ymateb i waith brys ac i wneud gwaith arferol y gwasanaeth.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 30 - Addasrwydd staff

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau trwyadl ar waith ar gyfer dethol ac archwilio cefndir yr holl ymgeiswyr am swyddi a rolau gwirfoddol er mwyn iddynt allu penderfynu a ddylid eu penodi neu eu gwrthod. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth sydd yn atodlen 1 o'r Rheoliadau. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau cywirdeb y geiradaon a'r cofnodion o gyflogaeth flaenorol.
- Os defnyddir staff asiantaeth, bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod yr un archwiliadau'n cael eu cynnal ar eu cyfer ag a gynhelir ar gyfer staff a gyflogir yn barhaol, a bydd ganddynt dystiolaeth i ddangos bod yr archwiliadau hyn wedi'u gwneud. Gallai hyn gynnwys cadarnhad a rhestrau gwirio a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, os bydd yn ddigon dibynnol a chadarn.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau broses ar waith i sicrhau bod staff wedi cofrestru'n briodol â rheoleiddiwr proffesiynol a'r cofrestriad hwnnw'n un cyfredol lle bydd gofyn neu, lle y bo hynny'n berthnasol, eu bod ar gofrestr wirfoddol achrededig.
- Wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, bydd darparwyr gwasanaethau yn penderfynu a oes gan yr unigolyn y sgiliau, y cymwysterau a'r cymeriad da angenrheidiol i gyflawni'r rôl y mae'n cael ei gyflogi/ei roi ar waith i'w chyflawni.

- Os na fydd staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) yn cyflawni'r meini prawf addasrwydd mwyach a nodir yn rheoliad 30(2), bydd y darparwyr gwasanaethau'n cymryd camau priodol yn ddi-oed i sicrhau na fydd unigolion yn wynebu risg. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:
 - hyfforddi a mentora;
 - darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol;
 - defnyddio gweithdrefnau disgyblu.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn cydymffurfio â gofynion y codau ymarfer proffesiynol a, lle y bo hynny'n briodol, bydd darparwyr yn atgyfeirio achosion at y cyrff proffesiynol perthnasol yn achos staff lle mae amheuaeth ynghylch pa mor addas ydynt.
- Os oes unrhyw bryderon bod aelod o staff wedi cam-drin plentyn neu wedi rhoi plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw gorff cofrestru proffesiynol perthnasol yn cael gwybod gan y darparwr gwasanaethau'n ddi-oed.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 31 - Cefnogi a datblygu staff

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod ganddynt raglen sefydlu sy'n rhoi'r adnoddau i bob aelod newydd o staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) i fod yn hyderus yn eu rolau ac ymarfer, a'u galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at les plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn cwblhau'r rhaglen sefydlu berthnasol sy'n ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn yr amserlen sydd wedi'i diffinio yn ogystal ag unrhyw raglenni sefydlu sy'n benodol i'r gwasanaeth.
- Bydd staff yn gallu cael gafael ar gopïau o unrhyw godau ymarfer proffesiynol perthnasol a chanllawiau ymarfer, gan gynnwys unrhyw rai sydd wedi'u cyflwyno gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd y safonau sydd yn y codau a'r canllawiau ymarfer hyn yn cael eu hyrwyddo'n frwd.
- Pan ddefnyddir staff asiantaeth, rhoddir cyflwyniad i'r gwasanaeth iddynt sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:
 - y datganiad o ddiben;
 - polisiâu a gweithdrefnau craidd; a
 - trefniadau rheoli a goruchwyllo.
- Bydd staff yn cael eu goruchwyllo yn eu rôl i i'w helpu i bwysu a mesur eu hymarfer a sicrhau eu bod yn cynnal safon eu cymhwysedd proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys adborth am eu perfformiad gan blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth a rhieni maeth.
- Bydd staff yn cyfarfod â'u rheolwr llinell neu swyddog cyfatebol, neu aelod uwch o'r staff, ar gyfer goruchwyliaeth un-i-un o leiaf bob chwarter.

- Bydd pob aelod o staff yn cael eu harfarnu bob blwyddyn a bydd hynny'n gyfle i roi adborth am eu perfformiad a nodi meysydd lle bydd angen hyfforddiant a datblygu er mwyn eu cynorthwyo yn eu rôl.
- Bydd anghenion hyfforddi, dysgu a datblygu ychwanegol aelodau unigol o'r staff yn cael eu nodi yn ystod mis cyntaf eu cyflogi, ac fe'u hadolygir drwy gyfrwng y broses oruchwyllo ac arfarnu.
- Bydd staff yn cael cymorth i ddilyn hyfforddiant, i ddysgu ac i ddatblygu i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl a diwallu anghenion plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth a rhieni maeth.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n dadansoddi'r anghenion hyfforddi bob blwyddyn (neu'n amlach os bydd angen) er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r cymhwysedd perthnasol i ddiwallu anghenion plant a rhieni maeth yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl hyfforddiant a goruchwyliaeth, sydd wedi'i gwblhau neu sydd angen ei gwblhau gan y staff.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cynorthwyo'r holl staff i gwblhau, lle y bo hynny'n briodol:
 - hyfforddiant craidd;
 - cymwysterau angenrheidiol a fyddai'n eu galluogi i barhau i gyflawni eu rôl;
 - hyfforddiant a gweithgareddau sy'n ofynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus;
 - hyfforddiant arall y tybir ei fod yn briodol gan y darparwr gwasanaethau;
 - hyfforddiant craidd ac arbenigol a nodwyd ar gyfer eu rôl gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 32 - Cydymffurfio â chod ymarfer y cyflogwr

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir gyda golwg ar y Cod Ymarfer i Gyflogwyr Staff Gofal Cymdeithasol (cyhoeddiad Gofal Cymdeithasol Cymru) a/neu godau ymarfer eraill sy'n berthnasol i gyflogwyr a all gael eu cyhoeddi gan Gofal Cymdeithasol Cymru o bryd i'w gilydd.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 33 - Gwybodaeth ar gyfer staff

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n casglu gwybodaeth ac yn ei darparu ar gyfer y staff yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y materion a ganlyn:
 - ethos a diwylliant y gwasanaeth;
 - yr ymddygiad a ddisgwylir gan staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth;
 - rolau a chyfrifoldebau staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth;
 - polisiau a gweithdrefnau'r gwasanaeth;
 - y gofynion o ran cadw cofnodion;

- cyfrinachedd a gofynion diogelu data;
- gweithdrefnau disgyblu;
- trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon;
- trefniadau ar gyfer pobl yn gweithio ar eu pen eu hunain.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar y copïau diweddaraf o'r holl bolisiâu, gweithdrefnau a chodau ymarfer, a'u bod yn eu deall. Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff wedi darllen y rhain yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn profi dealltwriaeth barhaus staff drwy eu goruchwyllo ac adolygu eu perfformiad.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn cyflawni eu dyletswyddau'n unol â gofynion polisiâu a gweithdrefnau.
- Bydd yr holl staff yn cael disgrifiad swydd ysgrifenedig sy'n datgan eu cyfrifoldebau'n glir, y dyletswyddau y disgwylir iddynt eu cyflawni ar y pryd a'u llinell atebolrwydd.
- Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd (o leiaf chwe chyfarfod y flwyddyn). Caiff y materion a drafodir eu cofnodi a chymerir camau gweithredu priodol yn eu sgil.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 34 - Gweithdrefnau disgyblu

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi a gweithdrefnau disgyblu, yn unol â'r gyfraith cyflogaeth, i ymdrin â pherfformiad ac ymddygiad gweithiwr. Mae hyn yn cynnwys:
 - gwybodaeth am yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ac annerbyniol a pha gamau a gymerir os bydd ymddygiad staff yn destun pryder;
 - y trefniadau ar gyfer atal aelod o'r staff o'i waith (neu ei drosglwyddo i ddyletswyddau eraill) yn ystod cyfnod pan fydd ymchwiliad i unrhyw honiadau o gamymddwyn difrifol, gan gynnwys honiadau o gam-drin neu bryderon difrifol ynghylch diogelwch neu les plant.
- Os bydd y darparwr gwasanaethau'n cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw weithiwr a bod y gweithiwr yn ymadael cyn i'r broses ddisgyblu gael ei chwblhau, ystyrir a fydd atgyfeirio'r achos at yr Heddlu, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Gofal Cymdeithasol Cymru neu unrhyw gorff proffesiynol arall yn briodol.
- Lle y bo amheuaeth ynghylch addasrwydd gwirfoddolwr i ymarfer, o ganlyniad i unrhyw gamymddwyn honedig/diffyg galluoedd o natur sy'n peri gofid, bydd y darparwr gwasanaethau'n cymryd camau priodol ac amserol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:
 - darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol;
 - terfynu'r trefniadau gwirfoddoli;
 - atgyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'r Heddlu, lle y bo hynny'n briodol.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau disgyblu a chwyno perthnasol, ac yn eu deall.

- Bydd adroddiad ysgrifenedig am unrhyw ymchwiliadau disgyblu a'r camau a gymerir yn cael ei gadw ar ffeil y gweithiwr yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth a diogelu data.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 35 – Gwaharddiad ar gyflogaeth – cyfeiriwch at Reoliad 35

Canllawiau Statudol - Rheoliad 50 - Dyletswydd i benodi rheolwr

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (yn amodol ar reoliad 50(6)) yn cael ei benodi ac yn ei le i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd ar gyfer pob lleoliad lle caiff gwasanaethau eu darparu neu sy'n ymwneud â hynny.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd dros benodi'r rheolwyr, ni waeth a yw'n rhan uniongyrchol o'r broses recriwtio neu beidio.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dawel ei feddwl bod yr unigolyn a benodir i fod yn rheolwr y gwasanaeth yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i reoli'r gwasanaeth yn ddiogel yn unol â gofynion y Rheoliadau.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dangos bod diwydrwydd dyladwy wedi'i ddangos wrth benodi'r rheolwr yn ogystal â dilyn gofynion rheoliad 30 (addasrwydd staff).
- Os bydd rheolwr yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis, bydd y darparwr gwasanaethau'n sicrhau bod rheolwr sydd â'r cymwysterau, y profiad a'r cymhwysedd priodol, ac wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (yn amodol ar reoliad 50(6)), yn ei le i reoli'r gwasanaeth.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 51 - Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i sicrhau bod y rheolwr yn addas ac yn alluog i redeg y gwasanaeth yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau:
 - bod gan y rheolwr y cymwysterau priodol;
 - bod y rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (yn amodol ar reoliad 50(6));
 - bod gan y rheolwr brofiad o reoli gwasanaeth gofal plant;
 - bod y broses o archwilio cefndir darpar reolwyr yn cynnwys yr archwiliadau perthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau i dawelu meddwl yr unigolyn cyfrifol bod yr unigolyn yn addas ac yn alluog i weithio gyda phlant agored i niwed.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 52 - Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth

- Pan gaiff rheolwr ei benodi i reoli mwy nag un gwasanaeth, cytunir ar hyn ymlaen llaw â rheoleiddiwr y gwasanaeth.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 53/54 - Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i:
 - hysbysu'r darparwr gwasanaethau am fanylion penodiad y rheolwr;
 - darparu'r wybodaeth a bennir gan y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r unigolyn;
 - hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth a Gofal Cymdeithasol Cymru pan benodir rheolwr newydd.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 55 - Y trefniadau pan fydd rheolwr yn absennol

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol strwythurau ar waith sy'n sicrhau, os na fydd y rheolwr ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm, y bydd system ddirprwyo effeithiol a chymwys ar waith i ddarparu arweiniad o ddydd i ddydd sydd:
 - yn parhau i ddarparu cymorth i rieni maeth/a neu'r plentyn sydd wedi'i leoli gyda'r rhieni maeth;
 - yn cynnal diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth;
 - yn sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar y plentyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu neu'r rhieni maeth;
 - yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliadau; a
 - yn cynnal datblygiad proffesiynol staff.
- Os na fydd y rheolwr, wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (yn amodol ar reoliad 50(6)), ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm am fwy na 28 diwrnod, bydd yr unigolyn cyfrifol yn hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth yn ysgrifenedig ac yn ddi-oed am y rheswm dros yr absenoldeb a'r trefniadau i ddarparu rheolwr yn ei le.

Llinell Ymholi 12: Y graddau y mae pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu cefnogi i leisio pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban. (*Rheoliad 43, 65*)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 43 - Chwythu'r chwiban

- Bydd polisi chwythu'r chwiban hygyrch ar waith. Mae hyn yn cynnwys:
 - y weithdrefn ar gyfer lleisio pryder;
 - y dulliau diogelu sydd ar waith ar gyfer staff sy'n lleisio pryder;
 - sut bydd pryderon yn cael eu hymchwilio.
- Bydd staff yn ymwybodol o sut mae lleisio pryderon, a byddant wedi cael hyfforddiant ar sut mae gwneud hyn, a bydd dulliau a chymorth ar gael i'w galluogi i wneud hyn.
- Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid cael caniatâd er mwyn datgelu manylion pryder, lle y bo angen, er mwyn gallu cynnal ymchwiliad effeithiol.
- Caiff cyfrinachedd ei sicrhau drwy gydol y broses ymchwilio oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy'n ymwneud â diogelu.
- Ni fydd unigolion yn cael eu herlyn nac yn wynebu unrhyw anfantais arall yn sgil mynegi eu pryderon.
- Dilynir trywydd pob honiad o gam-drin a phob digwyddiad o gam-drin yn ddi-oed yn unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r darparwr gwasanaethau a'r trefniadau diogelu lleol.
- Bydd systemau ar waith i sicrhau bod pob pryder yn cael ei ystyried yn ddi-oed yn unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r darparwr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys:
 - cynnal adolygiad i bennu lefel yr ymchwiliad a'r camau y bydd gofyn eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys cyfeirio'r achos at yr awdurdodau priodol er mwyn cynnal ymchwiliad (gallai hyn gynnwys ceisio cyngor gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu staff diogelu'r awdurdod lleol);
 - os gwelir bod meysydd lle mae angen gwella neu lle mae'r gwasanaeth yn methu, gweithredu ar y rhain ar unwaith;
 - sicrhau bod staff a phobl eraill sy'n ymwneud â'r ymchwiliad yn deall y prosesau sy'n ymwneud â diogelu ac ymateb i bryderon.
- Cedwir cofnodion o bryderon a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gall fod angen cymryd camau rhagataliol. Bydd camau a gymerir wrth ymateb i chwythu'r chwiban yn cael eu hadrodd o fewn y trefniadau llywodraethu.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 65 - Cymorth ar gyfer staff sy'n codi pryderon

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod:

- staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn ei ddeall;
- staff yn deall na fydd gofal gwael na methu diogelu lles plentyn yn cael ei oddef;
- staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i roi gwybod am faterion;
- staff, rhieni maeth a phlant yn deall bod croeso ac anogaeth iddynt fynegi pryderon, ac na fydd hynny'n cael ei anwybyddu.

Llinell Ymholi 13: Y graddau y mae unigolion yn cael eu cefnogi i reoli eu harian. (*Rheoliad 48*)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 48 - Cefnogi unigolion i reoli eu harian

- Bydd polisi a gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r trefniadau er mwyn i rieni maeth roi cymorth i blant i reoli eu harian. Mae hyn yn cynnwys:
 - sut mae plant yn cael anogaeth a chefnogaeth i ymdrin â'u harian eu hunain;
 - sut rhoddir cymorth i blant, gan gynnwys agor a rheoli cyfrifon banc unigol, cyllidebu a gwneud penderfyniadau am wario;
 - sut rhoddir cymorth i blant ddeall a rheoli unrhyw beryglon cysylltiedig;
 - sut rhoddir cymorth i blant i ddeall unrhyw lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, lle y bo'n berthnasol, a chael gafael arnynt; a
 - sut yr ymdrinnir â chofnodion o dderbynebau o wariant sy'n ymwneud â chynilion plentyn pan ddaw lleoliad i ben.
- Lle nad yw plant yn gallu rheoli eu harian eu hunain, bydd gan y darparwr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau bod y rhiant maeth yn cadw cofnodion a derbynebau o unrhyw drafodion ariannol a wneir ar eu rhan.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau y caiff cynilion plentyn eu monitro a'u goruchwyllo.

Llinell Ymholi 14: Y graddau y mae cyrff rheoleiddio perthnasol ac asiantaethau statudol yn cael eu hysbysu lle bydd pryderon a digwyddiadau arwyddocaol yn effeithio ar blant. (*Rheoliad 40, 67*)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 40 – Hysbysiadau (ddarparwyr gwasanaethau)

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau priodol ar waith er mwyn i'r awdurdod perthnasol gael hysbysiad am y digwyddiadau a restrir yn Atodlen 3 o'r Rheoliadau.
- Bydd hysbysiadau'n cael eu gwneud yn ddi-oed, o fewn 24 awr i'r digwyddiad fel arfer.
- Bydd y canlynol yn berthnasol gyda golwg ar Atodlen 3 (Rhan 1, 21)(Rhan 2, 32)(Rhan 3, 35)(Rhan 5, 41). Bydd darparwyr gwasanaethau maethu yn hysbysu'r awdurdodau perthnasol am unrhyw ddigwyddiad o gam-fanteisio ar blant neu amheuaeth o gam-fanteisio ar blant. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:
 - pan fydd plentyn yn rhoi gwybod am ddigwyddiad sy'n awgrymu y gall fod rhywun yn cam-fanteisio arno, neu;
 - pan fydd rheswm dros gredu y gall rhywun fod yn cam-fanteisio ar blentyn.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 67 – Hysbysiadau (unigolyn cyfrifol)

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth am ddigwyddiadau a nodir yn Atodlen 4 y Rheoliadau.

Llinell Ymholi 15: Y graddau y mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo polisi a gweithdrefn gwyno hawdd i bobl eu defnyddio ac yn dangos ei fod yn dysgu yn sgil cwynion er mwyn gwella'r gwasanaeth. (*Rheoliad 42, 60*)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 42 - Polisi a gweithdrefn gwyno

- Bydd polisi cwyno ar waith. Mae hwn yn cynnwys manylion gweithdrefnau fel y nodir yn rheoliad 42.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi cwyno hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnwys, lle y bo'n briodol, y defnydd o gam datrys anffurfiol, a bydd yn esbonio:
 - pwy sy'n gallu gwneud cwyn ac ynghylch beth;
 - at bwy y dylid mynd i drafod pryder/cwyn;
 - sut gellir helpu plant, rhieni maeth a rhieni biolegol i wneud cwyn;
 - gwybodaeth am gael eiriolaeth annibynnol, os bydd ar gael;
 - sut ymdrinnir â chwynion;
 - camau ac amserlenni'r broses.
- Bydd y polisi mewn fformat hawdd ei ddarllen. Bydd wedi'i hysbysebu'n dda, ac ar gael yn rhwydd ac yn hwylus i blant a rhieni maeth, eu teuluoedd, staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth.
- Bydd gwybodaeth am lwybrau cwyno eraill yn cael ei chynnwys i helpu achwynwyr os na fyddant yn fodlon ar y camau a gymerir gan y darparwr gwasanaethau. Er enghraifft, gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r awdurdod comisiynu, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.
- Bydd unigolion yn gallu cwyno yn ysgrifenedig neu ar lafar wrth y staff a dylid cydnabod y cwynion hyn oni fyddant yn ddienw.
- Bydd staff yn ymwybodol o'r polisi cwyno ac yn deall sut mae ymateb yn briodol i gwynion.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unrhyw sylwadau neu gwynion yn cael eu cadarnhau, yn cael sylw'n ddi-oed a bod yr achwynydd yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.
- Bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r achwynydd yn nodi canlyniad y gŵyn ac unrhyw gamau i'w cymryd.
- Lle y bo'n ymarferol, dylid cael cydsyniad i ddatgelu manylion cwyn, lle y bo angen, er mwyn gallu cynnal ymchwiliad effeithiol.
- Caiff cyfrinachedd ei sicrhau drwy gydol y broses gwyno oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy'n ymwneud â diogelu.
- Ni fydd plant, rhieni'r plant na rhieni maeth yn cael eu herlyn nac yn wynebu unrhyw anfantais arall yn sgil mynegi eu pryderon neu wneud cwyn.
- Bydd systemau ar waith i sicrhau bod pob cwyn yn cael ei hymchwilio yn unol â'r amserlenni sydd wedi'u nodi ym mholisi cwyno'r darparwr gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- cynnal adolygiad i bennu lefel yr ymchwiliad a'r camau y bydd gofyn eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys a oes angen cyfeirio'r achos at yr awdurdodau priodol er mwyn cynnal ymchwiliad (gallai hyn gynnwys rheoleiddiwr y gwasanaeth neu dimau diogelu'r awdurdod lleol);
- os gwelir bod meysydd lle mae angen gwella neu lle mae'r gwasanaeth yn methu, gweithredu ar y rhain ar unwaith.
- Bydd gan staff a phobl eraill sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion y lefel gywir o wybodaeth a sgiliau i wneud hyn. Byddant yn deall proses gwyno'r darparwr gwasanaethau a byddant yn gyfarwydd ag unrhyw ganllawiau cyfredol cysylltiedig.
- Bydd cofnodion o gwynion yn cael eu cadw a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gall fod angen cymryd camau rhagataliol.
- Bydd adroddiad ynghylch y camau a gymerir i ymateb i gwynion fel rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth maethu.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 60 - Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi'r materion a restrir yn rheoliadau 40 a 67.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gofnodion a wneir yn ddarllenadwy, yn gywir ac yn cael eu cadw'n ddiogel.

Llinell Ymholi 16: Y graddau y bydd rhieni maeth yn cael y wybodaeth, yr hyfforddiant, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ac yn cael eu goruchwyllo'n briodol, er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth y plant sydd wedi'u lleoli gyda nhw.
(*Rheoliad 18, 44-47*)

Sut beth yw da***Canllawiau Statudol - Rheoliad 18 – Cydymffurfio â'r cytundeb gofal maeth***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau gytundebau gofal maeth ar waith gyda rhieni maeth cymeradwy yn unol ag Atodlen 3 o'r Rheoliadau Paneli Maethu.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau effeithiol ar waith i fonitro ac adolygu'r rhwymedigaethau a roddir ar rieni maeth fel y'u nodir yn y cytundeb gofal maeth.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau y caiff rhieni maeth gymorth i ddeall a chyflawni'r gofynion a roddir arnynt gan y cytundeb gofal maeth.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod rhieni maeth yn cymryd camau i gydymffurfio â'r cytundeb gofal maeth lle bynnag y nodir nad ydynt yn gwneud hynny.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 44 – Cymorth, hyfforddiant a gwybodaeth ar gyfer rhieni maeth

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod rhieni maeth yn derbyn y cymorth, yr hyfforddiant a'r wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i blentyn y maent yn ei faethu yn unol â chynllun gofal a chymorth/cynllun llwybr y plentyn.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unrhyw hyfforddiant (sefydlu, parhaus neu fel arall) a roddir i rieni maeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod rhieni maeth yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt yn ystod unrhyw honiadau / cwynion yn eu herbyn, megis Fosterline Cymru.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i roi cymorth i rieni maeth y tu allan i oriau swyddfa arferol, a bydd rhieni maeth yn gyfarwydd â'r trefniadau hyn.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n darparu neu'n trefnu i hyfforddiant, gwybodaeth neu gyngor gael ei ddarparu yn ôl yr angen i ddarparu rieni maeth.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i fonitro ac adolygu'r cymorth, cyngor a gwybodaeth a ddarperir i rieni maeth a darpar rieni maeth. Bydd hyn yn bwydo i'r adolygiad o ansawdd y gofal.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 45 - Polisiâu a gweithdrefnau rhieni maeth

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau bod rhieni maeth yn gyfarwydd â'r polisiâu a'r gweithdrefnau a nodir yn y Rheoliadau ac yn glynu wrthynt.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 46 - Goruchwyllo

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i oruchwyllo rhieni maeth a rhoi cyngor a chymorth lle y bo angen.
- Bydd darparwyr gwasanaethu'n sicrhau bod diben amlwg i unrhyw gyfarfodydd goruchwyllo gyda rhieni maeth a bod cofnodion yn cael eu cadw ohonynt.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 47 – Perthynas waith effeithiol

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i rieni maeth gynnal perthynas gadarnhaol â'r plentyn sydd wedi'i leoli gyda nhw.

Llinell Ymholi 17: Y graddau y mae darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth plentyn yn cael ei ddarparu mewn lleoliad ac amgylchedd gyda chyfleusterau a, lle bo hynny'n berthnasol, gydag unrhyw gyfleusterau ac offer sy'n hyrwyddo cyflawni eu canlyniadau personol. (***Rheoliad 36-38***)

Sut beth yw da

Canllawiau Statudol - Rheoliad 36 – Eiddo, cyfleusterau a chyfarpar - darparwyr gwasanaethau

- Rhaid i leoliad, cynllun a maint yr eiddo fod yn addas ar gyfer y gwasanaeth fel y disgrifir yn y datganiad o ddiben.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 37 - Addasrwydd yr eiddo

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau le addas yn yr eiddo, fel ystafell gyfarfod a rennir, i sicrhau preifatrwydd ar gyfer goruchwyllo staff.
- Bydd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol.

Canllawiau Statudol - Rheoliad 38 – Eiddo, cyfleusterau a chyfarpar - rhieni maeth

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i fonitro'r eiddo, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan rieni maeth wrth ddarparu gofal a chymorth i blentyn sydd wedi'i leoli gyda nhw.